Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 40/2021

DYDDIAD CYHOEDDI: 27/05/2021

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arolwg Tracio Defnyddwyr Twristiaeth COVID-19 y DU: Adroddiad proffil Cymru 2021 (Tonnau 28-30)

ISBN Digidol 978-1-80195-385-6

© Hawlfraint y Goron

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Arolwg Tracio Defnyddwyr Twristiaeth COVID-19 y DU: Adroddiad proffil Cymru 2021 (Tonnau 28-30) Mai 2021. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 40/2021.

Ar gael yn: https://llyw.cymru/arolwg-tracio-defnyddwyr-twristiaeth-covid-19-proffil-cymru-6-ebrill-i-9-mai-2021

Barn yr ymchwilydd yw’r safbwynt a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediad
Croeso Cymru
Grŵp Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyflwyniad



# Cyflwyniad

Mae VisitEngland, VisitScotland a Croeso Cymru (Llywodraeth Cymru) wedi comisiynu arolwg wythnosol COVID-19 i dracio barn defnyddwyr i ddeall bwriad domestig i gymryd gwyliau byr dros nos a gwyliau yn y DU a thramor, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhwystrau a'r pryderon sy'n ymwneud â theithio ar hyn o bryd a sut y bydd y rhain yn esblygu dros amser.

Mae'r arolwg yn rhoi sylw i: tebygolrwydd preswylwyr o'r DU yn teithio; pryd a ble y maent yn bwriadu mynd; manylion penodol trip fel mathau o lety a gweithgareddau a wneir a'r math o sicrwydd y maent yn chwilio amdano o'r sector.

Mae'r traciwr yn seiliedig ar sampl o 1,500 o oedolion 16+ oed cynrychioliadol genedlaethol yn y DU, gyda hwb i breswylwyr yr Alban a Chymru i ddarparu samplau wythnosol cadarn. Ailadroddwyd yr arolwg yn wythnosol neu'n bythefnosol gyda'r wythnos gyntaf yn dechrau ar 18 Mai 2021.

**Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata o Donnau 28-30.** Seilir hyn ar waith maes sy'n digwydd yn ystod y dyddiadau canlynol:

- **Ton 28: Ebrill 6ed i Ebrill 10fed 2021**
- **Ton 29: Ebrill 19eg i Ebrill 26ain 2021**
- **Ton 30: Mai 4ydd i Mai 9fed 2021**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BVA BDRC

# Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (1)

Yn yr adroddiad hwn edrychwn ar broffiliau ac agweddau nifer o gynulleidfaoedd ar wahân:

Defnyddir y diffiniadau isod i ddiffinio bwriadau trip dros nos.  Mewn rhai achosion rhennir pob diffiniad yn ôl y bwriad i fynd ar drip dros nos yng Nghymru a'r bwriad i wneud hynny yn y DU.

- **Holl Fwriadwyr y Gwanwyn:**  Aelodau o'r cyhoedd sy'n nodi y bydd eu gwyliau neu wyliau byr nesaf rhwng mis Mai a mis Mehefin 2021.
- **Holl Fwriadwyr yr Haf:**  Aelodau o'r cyhoedd sy'n nodi y bydd eu gwyliau neu wyliau byr nesaf rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021.
- **Holl Fwriadwyr y Gwanwyn/Haf:** Aelodau o'r cyhoedd sy'n nodi y bydd eu gwyliau neu wyliau byr nesaf rhwng mis Mai a mis Medi 2021.

Trwy gydol yr adroddiad rydym yn defnyddio nifer o ddiffiniadau. Er mwyn darparu proffiliau cliriach, rydym hefyd yn proffilio fesul cyfnod bywyd. Mae cyfnodau bywyd yn well nag 'oedran' gan eu bod yn disgrifio sefyllfa bywyd rhywun yn well. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r canlynol:

- **Cyn-nythwyr:** 16-34 oed heb blant ar yr aelwyd
- **Teuluoedd:** 16-64 oed gyda phlant ar yr aelwyd
- **Annibynwyr hŷn:** 35-64 oed heb unrhyw blant ar yr aelwyd
- **Oedran ymddeol:** 65+ oed.

Mewn ymgais i ddeall effaith y brechlyn ar gymryd tripiau, rydym wedi creu dau 'grŵp brechlyn':

- **Dros 45 oed sydd wedi derbyn y brechlyn.**
- **Dros 45 oed nad ydyn nhw wedi derbyn y brechlyn.**

Pwrpas y ffocws ar bobl dros 45 oed yw deall effaith cymryd y brechlyn ar ymddygiad hamdden heb ffactorau 'cysylltiedig ag oedran' yn sgiwio'r canlyniadau. Wedi dweud hynny, nodwch y gallai rhagfarnau oedran fodoli o hyd (mae pobl hŷn, llai egnïol dros 45 oed yn fwy tebygol o fod wedi cael y brechlyn na phobl iau, mwy egnïol dros 45 oed).

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (2)

Er mwyn hwyluso'r dadansoddi defnyddir y diffiniadau llety canlynol:

- **Gwesty/Motél/Tafarndy**
- **Tŷ llety/Gwely a Brecwast/Ffermdy**
- **Llety Hunanddarpar masnachol:** Fflat/Gwesty fflatiau gwyliau rhent neu gartref gwyliau rhent
- **Cartref preifat:** Ail gartref/cyfran gyfnodol neu gartref ffrind/perthynas neu yng nghartref preifat rhywun arall ar sail fasnachol (e.e. Airbnb)
- **Carafán/Gwersylla/Glampio:** Carafán Deithiol neu Gerbyd Gwersylla/Cartref Modur neu Garafán Sefydlog neu Babell neu Glampio/Amgen
- **Llety arall:** Hostel neu fath arall o lety

Mae'r bennod olaf yn edrych ar dripiau dros nos a gymerwyd ers i gyfyngiadau gael eu codi ym mis Ebrill 2021. Ar hyn o bryd mae'r canlyniadau'n seiliedig ar feintiau sampl bach ac yn adlewyrchu cynulleidfa unigryw sy'n barod ac yn gallu teithio o fewn y cyfyngiadau a oedd yn bodoli. Defnyddir y diffiniadau canlynol:

- **Cymerwyr tripiau yn y DU:** Unrhyw un sydd wedi mynd ar drip dros nos yn y DU ers mis Ebrill 2021.
- **Cymerwyr tripiau yng Nghymru:** Unrhyw un sydd wedi mynd ar drip dros nos yng Nghymru ers mis Ebrill 2021.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government
BVA BDRC

# Canfyddiadau allweddol



# Canfyddiadau allweddol (1)

**Hwyliau a hyder teithio cenedlaethol**

1. Yn y cyfnod gwaith maes diweddaraf (dechrau mis Mai 2021), mae oedolion y DU yn fwy tebygol o nodi ‘mae’r gwaethaf wedi mynd heibio’ nag ar unrhyw adeg ers dechrau’r pandemig. Mae’r 48% sy’n nodi ‘mae’r gwaethaf wedi mynd heibio’ ddwywaith y gyfran a ddywedodd hynny ddechrau mis Chwefror ac yn parhau â’r cynnydd serth mewn optimistiaeth ers dechrau’r flwyddyn.
2. Mae rhagolwg mwy cadarnhaol yn cyd-fynd â'r lefelau cyfforddusrwydd uchaf yr adroddwyd amdanynt ar gyfer cynnal gweithgareddau awyr agored a dan do, gan gynnwys 'mynd am dro mewn parc gwledig', 'siopa yn eich canolfan siopa leol', 'bwyta mewn bwyty', 'teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus’, 'ymweld ag atyniad ymwelwyr dan do’ ac 'ymweld â chanol y ddinas brysur '.
3. Mae hyder teithio hefyd wedi cynyddu - mae cyfran oedolion y DU sy'n hyderus y byddai trip domestig dros nos rhwng mis Mai a mis Medi yn mynd yn ei flaen yn sylweddol uwch nag ym mis Chwefror.
4. Gyrrir optimistiaeth gynyddol yn rhannol gan gyflwyno’r brechlyn - mae pobl dros 45 oed sydd wedi’u brechu yn sylweddol fwy tebygol o feddwl ‘mae’r gwaethaf wedi mynd heibio’ ac i fod yn hyderus y byddai tripiau dros nos yn mynd yn eu blaen na phobl dros 45 oed nad ydynt wedi cael y brechlyn.
5. Mae'r hyder teithio uwch ymysg oedolion sydd wedi'u brechu yn golygu, am y tro cyntaf ers dechrau'r pandemig, ymddeolwyr yw'r cyfnod bywyd sydd fwyaf tebygol o fod yn ystyried trip dros nos yn y tymor sydd i ddod (y gwanwyn).
6. Fodd bynnag, nid ‘cael brechlyn’ yw’r unig ddylanwad ar gynyddu optimistiaeth. Mae pob cam bywyd yn dangos cynnydd mewn hyder o'i gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol, ac mae cyfnodau bywyd iau yn parhau i fod y mwyaf hyderus a chyffyrddus yn cynnal gweithgareddau dan do. Mae’r ymchwil yn awgrymu nad yw’r brechlyn wedi goresgyn y pryderon sydd gan genedlaethau hŷn o ran ymweld â lleoedd gorlawn fel canol dinasoedd prysur.
7. Yn ogystal â gwneud dinasoedd neu drefi mawr yn llai apelgar, mae COVID-19 hefyd wedi dylanwadu ar fwriadau ymwelwyr i aros yn agosach at adref nag arfer, er mwyn osgoi lleoedd prysur sy'n gysylltiedig â thwristiaid dramor ac i osgoi llety a rennir.
8. Yn fras, mae preswylwyr Cymru yn fwy hyderus na preswylwyr y DU ar y cyfan. Mae hyn yn trosi i lefelau cyfforddusrwydd uwch, a hyder teithio ychydig yn uwch yn ystod misoedd yr haf. Mae'r teimlad mwy cadarnhaol ymhlith preswylwyr Cymru yn nodi gwrthdroad o adroddiadau blaenorol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canfyddiadau allweddol (2)

**Bwriadau tripiau sydd ar ddod (ymwelwyr dros nos)**

1. Mae 14% o breswylwyr y DU yn bwriadu mynd ar drip dros nos yn y gwanwyn (mis Mai i fis Mehefin), ychydig yn is ymhlith preswylwyr Cymru (ar 11%). Mae bron i draean (32%) o breswylwyr y DU yn bwriadu mynd ar drip dros nos yn yr haf, gan godi i 38% o breswylwyr Cymru.
2. Mae bwriadau haf yn sylweddol uwch nag yn y cyfnod adrodd blaenorol ym mis Chwefror, yn enwedig ymhlith preswylwyr Cymru, gan danlinellu ymhellach eu cynnydd mewn hyder.
3. Gan nodi gwyriad nodedig cyfnodau adrodd blaenorol, ymddeolwyr yw'r cyfnod bywyd sydd fwyaf tebygol o fod yn rhagweld trip dros nos yn y gwanwyn, gydag annibynwyr hŷn yn agos y tu ôl iddynt. Er y gallai hyn gael ei yrru'n rhannol gan gyfnodau bywyd iau *sydd eisoes* wedi mynd ar eu trip yn y gwanwyn, mae hefyd yn tanlinellu lefelau hyder cynyddol carfannau oedran hŷn.
4. Yn yr haf, mae cyn-nythwyr a theuluoedd yn dychwelyd fel y cyfnodau bywyd fwyaf tebygol o fynd ar drip dros nos, er bod hyn yn debyg i 'amseroedd arferol' pan fydd ffactorau tymhorol (fel gwyliau ysgol) yn gyrru ymddygiad.
5. Yn gadarnhaol, mae'r mwyafrif helaeth o dripiau gwanwyn eisoes wedi'u cynllunio ac mae dros hanner eisoes wedi'u harchebu.
6. Er bod 2 o bob 5 trip haf wedi'u cynllunio dim ond 3 o bob 10 sydd wedi'u harchebu. Mae llawer o bobl sy'n cymryd tripiau yn dal i aros i weld ac yn debygol o archebu'n agosach at y dyddiad teithio na'r arfer.
7. Mae ymddeolwyr a annibynwyr hŷn yn fwyaf tebygol o fod eisoes wedi archebu eu tripiau ar draws y ddau dymor, gan ddangos bod eu hyder cynyddol hefyd yn trosi i ymddygiad.
8. De Orllewin Lloegr yw'r gyrchfan fwyaf dewisol ar gyfer trip gwanwyn neu haf, gan barhau â thueddiad sydd wedi bod ar waith ers dechrau'r pandemig. Cymru yw'r ail gyrchfan fwyaf dewisol ar gyfer trip gwanwyn a'r seithfed fwyaf ar gyfer trip haf (er mai dim ond ychydig y tu ôl i'r trydydd cyrchfan).
9. Mae'r mwyafrif o fwriadwyr tripiau yng Nghymru yn byw mewn mannau eraill yn y DU. Mae tri chwarter y bwriadwyr Cymru yn yr haf yn byw y tu allan i Gymru, gyda Gogledd-orllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr yn cyfrif am y gyfran uchaf o bobl sy'n teithio.
10. Teuluoedd yw'r gyfran uchaf o bobl sy'n bwriadu ymweld â Chymru yn y gwanwyn a'r haf, gan gynnwys 4 o bob 10 ymwelydd yn yr haf.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canfyddiadau allweddol (3)

8. Mae mwyafrif helaeth y tripiau dros nos yng Nghymru yn y gwanwyn a’r haf yn debygol o fod ar gyfer ‘gwyliau’, yn fwy felly nag yng ngweddill y DU lle mae ymweliadau â ffrindiau a pherthnasau yn fwy cyffredin.
9. Mae tripiau hirach o 4+ noson ychydig yn fwy amlwg na gwyliau byrrach ymhlith bwriadwyr Cymru a’r DU (yn enwedig yn ystod misoedd yr haf), er bod y cydbwysedd yn gymharol gyfartal.
10. Mae bwriadwyr Cymru ar gyfer y gwanwyn a'r haf yn cynllunio ymweld ag ystod eang o leoedd yng Nghymru, er bod gwahaniaethau yn dibynnu ar lle maent yn dod o. Mae preswylwyr Cymru ddwywaith yn fwy tebygol o gynllunio aros yn Sir Benfro nag unrhyw ran arall o Gymru. Mae preswylwyr nad ydynt o Gymru yn fwyaf tebygol o aros yng Nghaerdydd, Eryri neu Ynys Môn, er bod hyn yn dibynnu ar ble maen nhw'n byw yn y DU.
11. Mae bwriadwyr Cymru ar gyfer y gwanwyn a’r haf yr un mor debygol o ymweld â ‘chefn gwlad neu bentref’, ‘tref arfordirol/glan môr traddodiadol’ neu ‘arfordir gwledig’ ar eu harhosiad dros nos yn y gwanwyn/haf.
12. Ystyrir ystod eang o lety gan fwriadwyr y gwanwyn/haf yng Nghymru - gyda diddordeb mewn carafán/gwersylla, cartref preifat, gwesty/motel/tafarn a hunanarlwyo masnachol. Ar gyfartaledd, mae pobl sy'n bwriadu ymweld yn ystyried bron i 2 fath o lety, hyn yn adlewyrchu’r ansicrwydd parhaus ynghylch argaeledd a chyfyngiadau'r llywodraeth.
13. Mae bwriadwyr tripiau yng Nghymru yn bwriadu gwario £100 yn llai ar eu trip dros nos na bwriadwyr tripiau yn y DU. Gyrrir hyn gan ymwelwyr teuluol sy'n bwriadu gwario bron i £200 yn llai na'r ymwelydd teuluol yn y DU yn ei gyfanrwydd. Fel mewn cyfnodau adrodd blaenorol, mae hyn yn dynodi ymwelwyr mwy sensitif i bris yng Nghymru yn ystod y misoedd nesaf.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canfyddiadau allweddol (4)

## Bwriadau hamdden a Thripiau Dydd sydd ar ddod

1. Ar ddechrau mis Mai 2021, mae bron i 7 o bob 10 o breswylwyr Cymru yn bwriadu mynd ar drip dydd erbyn yr haf hwn.
2. Mae bwriadau tripiau dydd ar eu huchaf ar gyfer ardaloedd cyrchfan llai poblog fel ‘tref arfordirol/glan môr traddodiadol’ a ‘cefn gwlad neu bentref’.
3. Mae bwriadau tripiau yn is ar gyfer ardaloedd trefol fel ‘dinas fawr’.
4. Mae bwriadau hamdden yn parhau i fod yn gryfach ar gyfer atyniadau a gweithgareddau awyr agored.
5. Mae 'gardd neu barc gwledig' yn parhau i fod y math o atyniadau i ymwelwyr a fydd yn profi bwriad net mawr o ran ymweliadau, ond erbyn hyn mae ‘cestyll, caerau neu safleoedd hanesyddol eraill' a 'sŵau/atyniadau fferm’ wedi ymuno â’r math hwn o atyniad o ran cynhyrchu bwriadau ymweld cadarnhaol net.
6. Ymhlith preswylwyr Cymru, mae disgwyl hefyd y bydd ymgysylltiad mwy cadarnhaol â rhai atyniadau dan do gan gynnwys ‘tai/palasau hanesyddol’, ‘rheilffyrdd golygfaol’ a ‘parciau thema’.
7. Mae oedolion y DU a Chymru fel ei gilydd yn rhagweld y byddant yn ymweld â bwytai gyda seddi awyr agored gryn dipyn yn fwy na'r arfer yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, ond maent hefyd yn rhagweld y byddant yn ymweld â mwy o fwytai *dan do* nag arfer - yn arwyddocaol felly i breswylwyr Cymru.

## Tripiau Busnes sydd ar Ddod

1. Dim ond 10% o oedolion y DU mewn cyflogaeth sy'n bwriadu mynd ar drip busnes dros nos erbyn mis Mehefin 2021, gan ostwng ychydig i 8% ar gyfer preswylwyr Cymru.
2. Cyfarfod yw'r rheswm mwyaf cyffredin o bell ffordd dros drip dros nos - wedi'i ddewis gan bron i hanner.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canfyddiadau allweddol (5)

**Tripiau a gymerwyd ers mis Ebrill**

1. Mae 1 o bob 7 o oedolion y DU a Chymru yn nodi eu bod wedi cymryd gwyliau dros nos neu wyliau byr ers mis Ebrill. Roedd mwyafrif helaeth y tripiau a gymerwyd yng Nghymru at bwrpas ‘gwyliau’, cyferbyniad i’r holl dripiau yn y DU a rannwyd yn gymharol gyfartal rhwng gwyliau ac ymweliadau â ffrindiau neu berthnasau.
2. Mae proffil ac ymddygiad y rhai sy'n cymryd tripiau dros nos yn y DU ers mis Ebrill yn gymharol unigryw, efallai'n adlewyrchu cyfyngiadau parhaus a'r gyfran fawr o ymweliadau â ffrindiau neu berthnasau.
3. Roedd dros hanner y tripiau a gymerwyd ers mis Ebrill gan y cyfnod bywyd teulu, Dwyrain Canolbarth Lloegr a Dwyrain Lloegr oedd y ddau ranbarth yr ymwelwyd â hwy fwyaf ar gyfer tripiau yn y DU.
4. ‘Dinas fwy’ yw’r math o gyrchfan yr ymwelir â hi fwyaf ar gyfer tripiau yn y DU a gymerwyd ers mis Ebrill, er mai ‘mynyddoedd neu fryniau’ a ‘cefn gwlad neu bentref’ yw’r mathau o gyrchfannau yr ymwelir â hwy fwyaf ar gyfer pobl sy’n cymryd tripiau yng Nghymru.
5. Llwyddodd mwyafrif llethol y rhai a gymerodd dripiau yn y DU a Chymru fynd ar eu trip domestig dros nos yn y gyrchfan a gynlluniwyd ganddynt yn wreiddiol.
6. Ymhlith y rhai a gymerodd dripiau yn y DU a Chymru, ‘carafan/gwersylla’ a ‘hunanarlwyo masnachol’ oedd y ddau brif fath o lety ar gyfer tripiau a gymerwyd ers mis Ebrill. Roedd ‘cartref preifat’ hefyd yn fath blaenllaw o lety ar gyfer y rhai sy’n cymryd tripiau yn y DU a yrrir gan y gyfran uchel o ymweliadau â ffrindiau neu berthnasau.


Llywodraeth Cymru
Welsh Government
BVA BDRC

# Teimladau cenedlaethol



# Canfyddiadau'r sefyllfa mewn perthynas â COVID-19

- Ar ddechrau mis Mai (Ton 30), roedd cyfran oedolion y DU sy'n nodi 'mae'r gwaethaf wedi mynd heibio' mewn perthynas â COVID-19 yn uwch nag ar unrhyw adeg ers dechrau'r pandemig - sef 48% yn parhau â'r cynnydd serth mewn optimistiaeth ers dechrau'r flwyddyn. Mae canfyddiadau ymhlith preswylwyr Cymru yn olrhain barn poblogaeth ehangach y DU yn fras.

**Ffigur 1. Canfyddiad o'r sefyllfa mewn perthynas â COVID-19, Tonnau 1-30, y DU a Chymru.**




C7: O ran sefyllfa Coronafeirws yn y DU a'r ffordd y bydd yn newid yn ystod y mis i ddod, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch barn orau? Sylfaen: Holl ymatebwyr y DU. n=c.1,750. Holl ymatebwyr Cymru n=c.200

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BVA BDRC

# Canfyddiadau o'r sefyllfa mewn perthynas â COVID-19

- Ymddeolwyr yw'r cyfnod bywyd sydd fwyaf tebygol o gredu 'mae'r gwaethaf wedi mynd heibio', wedi'i ddilyn yn agos gan 'Annibynwyr hŷn'. Mae optimistiaeth mewn perthynas â COVID-19 yn cydberthyn yn gryf â'r nifer sy'n derbyn brechlyn - mae pobl dros 45 oed sydd wedi cael brechlyn yn sylweddol fwy cadarnhaol na phobl dros 45 oed nad ydyn nhw wedi ei gael.
- Er bod grwpiau oedran hŷn yn dangos y lefelau uchaf o optimistiaeth, mae pob cyfnod bywyd yn sylweddol fwy tebygol o gredu 'mae'r gwaethaf wedi mynd heibio' nag yn y cyfnod adrodd blaenorol yng nghanol mis Chwefror.

**Ffigur 2. Canfyddiad y sefyllfa ynghylch COVID-19, Ton 30, Canran y DU a Chymru**




**Ffigur 3. Canfyddiad y sefyllfa ynghylch COVID-19 yn ôl cyfnod bywyd, Ton 30, Canran y DU**




C7: O ran sefyllfa Coronafeirws yn y DU a'r ffordd y bydd yn newid yn ystod y mis i ddod, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch barn orau? Sylfaen: Holl ymatebwyr y DU. n = 1,758; Holl ymatebwyr Cymru n = 207; Cyn-nythwyr n = 363; Teuluoedd n = 554; Annibynwyr Hŷn n = 500' Oed Ymddeol n=341 Pobl dros 45 oed sydd wedi cael y brechlyn n = 694; Pobl dros 45 oed nad ydynt wedi cael y brechlyn n = 150

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Lefel cyfforddusrwydd wrth gynnal gweithgareddau

- Mae lefelau cyfforddusrwydd gyda 'mynd am dro mewn parc gwledig neu lwybr lleol' wedi aros yn gyson uchel trwy gydol y pandemig, gan ostwng o dan 80% ar dri achlysur yn unig. Mae'r don ddiweddaraf yn nodi'r tro cyntaf i'r teimlad o gyfforddusrwydd gyda'r gweithgaredd hwn daro 90%.
- Mae cyfforddusrwydd â gweithgareddau dan do hefyd ar eu huchaf hyd yn hyn - yn adlamu ar ôl cwymp ym mis Rhagfyr ac ar ddechrau'r flwyddyn. Mae cyfforddusrwydd â 'theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus' ac 'ymweld â chanol dinas brysur' wedi cynyddu'n raddol yn y tonnau diweddar, er ar gyfradd is na gweithgareddau dan do eraill.

**Ffigur 4. Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal gweithgareddau unigol, Ddim yn gyfforddus iawn ac yn weddol gyfforddus, Canran, Tonnau 1-30, y DU.**




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

VB11. Yn fras, pa mor gyfforddus neu anghyfforddus fyddech chi'n teimlo i wneud y canlynol yn ystod y mis nesaf?
Sylfaen: Pob ymatebydd y DU n=c.1,750. *Gweithgareddau newydd wedi'u hychwanegu o Don 26 (wythnos yn dechrau 8 Mawrth)

# Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal gweithgareddau gyda 'chyfforddusrwydd cymedrol'

- Mae preswylwyr Cymru, o ychydig, yn fwy cyfforddus yn cynnal gweithgareddau bob dydd nag oedolion y DU - ar lefel gyfartalog a chyda mwyafrif y gweithgareddau unigol. Mae dau eithriad i hyn yn cynnwys 'ymweld â chanol dinas brysur' a 'theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus' lle mae preswylwyr y DU yn dangos lefelau cyfforddusrwydd uwch. Mae lefelau cyfforddusrwydd uwch preswylwyr Cymru o gymharu â phoblogaeth ehangach y DU yn nodi gwrthdroi adroddiadau blaenorol.
- Mae preswylwyr y DU a Chymru yn arddangos lefelau cyfforddusrwydd sylweddol uwch gyda'r holl weithgareddau o gymharu â chanol mis Chwefror 2021.

**Ffigur 5. Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal gweithgareddau unigol, Ddim yn gyfforddus iawn ac yn weddol gyfforddus Canran, Ton 30, y DU a Chymru**




VB11. Yn fras, pa mor gyfforddus neu anghyfforddus fyddech chi'n teimlo i wneud y canlynol yn ystod y mis nesaf? Sylfaen: Holl ymatebwyr y DU. n = 1,758; Holl ymatebwyr Cymru n = 207

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal gweithgareddau gyda ‘chyfforddusrwydd cymedrol’

- Er gwaethaf bod y cyfnod bywyd sydd fwyaf tebygol o nodi ‘mae’r gwaethaf wedi mynd heibio’, mae ymddeolwyr yn parhau i fod y lleiaf tebygol o deimlo’n gyffyrddus yn gwneud gweithgareddau bob dydd, yn enwedig ‘ymweld â chanol dinas brysur’.
- Mae lefelau cyfforddusrwydd â gweithgareddau dan do yn gyffredinol yn cydberthyn ag oedran, ‘Cyn-nythwyr’ y mwyaf cyfforddus, ac yna ‘Teuluoedd’.
- Mae ymddeolwyr yn nodedig yn llai hyderus wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, ymweld ag atyniadau dan do a chanol dinas brysur.

**Ffigur 6. Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal gweithgareddau yn ôl cyfnod bywyd, Ddim yn gyfforddus iawn a gweddol gyfforddus, Canran, Ton 30, y DU.**




VB11. Yn fras, pa mor gyfforddus neu anghyfforddus fyddech chi'n teimlo i wneud y canlynol yn ystod y mis nesaf? Sylfaen: Cyn-nythwyr n = 363; Teuluoedd n = 554; Annibynwyr Hŷn n = 500; Pobl sydd wedi ymddeol n = 341

Llywodraeth Cymru Welsh Government

BVA BDRC

# Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal gweithgareddau gyda 'chyfforddusrwydd cymedrol'

- Mae pobl dros 45 oed sydd wedi cael y brechlyn yn llai tebygol o fod yn gyffyrddus â chynnal gweithgareddau dan do na phobl dros 45 oed *nad* ydyn nhw wedi cael y brechlyn. Mae hyn yn tanlinellu ymhellach bod lefelau cyfforddusrwydd yn cael eu gyrru yn bennaf gan genhedlaeth, yn hytrach na derbyn brechlyn - mae pobl dros 45 oed sydd wedi cael y brechlyn yn tueddu i fod ar ben hŷn y garfan oedran hon na'r rhai sydd heb heb dderbyn y brechlyn.
- Wedi dweud hynny, mae'n werth nodi bod pobl dros 45 oed sydd wedi cael ail ddos o'r brechlyn yn tueddu i fod yn fwy cyfforddus na'r rhai sydd wedi cael yr un dos yn unig, gan awgrymu bod y brechlyn yn cael rhywfaint o effaith ar lefelau cyfforddusrwydd.

**Ffigur 7. Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal gweithgareddau yn ôl statws brechlyn, Ddim yn gyfforddus iawn a gweddol gyfforddus, Canran, Ton 30, y DU.**




VB11. Yn fras, pa mor gyfforddus neu anghyfforddus fyddech chi'n teimlo i wneud y canlynol yn ystod y mis nesaf? Sylfaen: Dros 45 oed sydd wedi cael y brechlyn n = 694; Dros 45 oed nad ydynt wedi cael y brechlyn n = 154

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Canfyddiadau pryd y bydd pethau'n dychwelyd i normal

- Dim ond 1 o bob 5 (19%) o drigolion y DU sy'n rhagweld bywyd yn dychwelyd i rywbeth sy'n agos at normal erbyn mis Medi, a llai na hanner (47%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae preswylwyr Cymru yn tueddu i ragweld normalrwydd yn ddiweddarach, dim ond 2 o bob 5 erbyn diwedd y flwyddyn.
- Wrth wyrdroi optimistiaeth o amgylch COVID-19, mae cyfnodau bywyd iau yn rhagweld normalrwydd yn sylweddol gynt na chyfnodau bywyd hŷn.
- Gyda'i gilydd, mae'r ffigurau a'r lefelau cyfforddusrwydd hyn yn awgrymu, er mai cyfnodau bywyd hŷn yw'r rhai mwyaf tebygol o nodi 'mae'r gwaethaf wedi mynd heibio', gall hyn gael ei yrru oherwydd eu bod wedi cael profiad mwy negyddol o'r pandemig, ac nid yw'n nodi eu bod yn meddwl bod yr '*amgylchedd* COVID' wedi mynd heibio.

**Ffigur 8. Canfyddiadau cronnus o pryd y bydd pethau'n dychwelyd yn 'agos at normalrwydd'. Canran gronnus Ton 30, y DU a Chymru.**




**Tabl 1. Normalrwydd erbyn mis Medi yn ôl is-grŵp**

| Cynulleidfa | % |
|---|---|
| Cyn-nythwyr | 39% |
| Teuluoedd | 34% |
| Annibynwyr hŷn | 23% |
| Ymddeolwyr | 29% |
| Pobl dros 45 oed sydd wedi cael y brechlyn | 25% |
| Pobl dros 45 oed sydd heb gael y brechlyn | 29% |

C16: O ystyried yr hyn rydych chi'n ei wybod heddiw, pryd ydych chi'n meddwl y bydd bywyd yn dychwelyd i rywbeth yn agos at normalrwydd? Sylfaen: Holl ymatebwyr y DU. n = 1,758; Holl ymatebwyr Cymru n = 207 Holl ymatebwyr y DU. n = 1,758; Holl ymatebwyr Cymru n = 207; Cyn-nythwyr n = 363; Teuluoedd n = 554; Annibynwyr Hŷn n = 500; Pobl sydd wedi ymddeol n = 341 Dros 45 oed sydd wedi cael y brechlyn n = 694; Dros 45 oed nad ydynt wedi cael y brechlyn n = 154

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Segmentau ariannol ac effaith ariannol COVID-19

- Mae 13% o boblogaeth y DU a 12% o boblogaeth Cymru yn ystyried eu hunain yn 'cael eu taro'n galed yn ariannol' gan y pandemig, gyda thua 1 o bob 7 yn disgrifio eu hunain fel 'gwell eu byd nag o'r blaen'. Yn nodedig, mae preswylwyr y DU a Chymru fel ei gilydd yn nodi statws ariannol mwy cadarnhaol nag yn y cyfnod adrodd blaenorol yng nghanol mis Chwefror 2021.
- Ar hyn o bryd mae COVID-19 yn effeithio ar gyflogaeth tua 2 o bob 5 o breswylwyr y DU a Chymru o oedran gweithio - yn is nag yng nghanol mis Chwefror 2021. Mae'r gyfran ar ffyrlo ar hyn o bryd wedi gostwng yn sylweddol ers y pwynt hwnnw.

**Ffigur 9. Dadansoddiad o breswylwyr yn ôl segmentau ariannol, Carnan, Ton 30, y DU a Chymru.**




**Ffigur 10. Effaith cyflogaeth COVID-19, Canran, Ton 30, Y rhai o oedran gweithio yn y DU a Chymru.**




C17. Pe bai'n rhaid i chi ddewis, pa un o'r datganiadau canlynol fyddai'n disgrifio'ch teimladau orau ar hyn o bryd? Sylfaen: Holl ymatebwyr y DU. n = 1,758; Holl ymatebwyr Cymru n = 207 VB8b: Gan feddwl am eich gwaith a'ch amgylchiadau ariannol, pa un, os o gwbl, o'r canlynol sydd wedi digwydd i chi o ganlyniad i'r pandemig COVID-19? *Oedran gweithio wedi'i ddiffinio fel o dan 65 oed.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Hyder o ran teithio



# Hyder yn y gallu i gymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU

- Mae hyder mewn teithio domestig wedi codi'n sylweddol ers y cyfnod adrodd blaenorol yng nghanol mis Chwefror 2021. Mae 34% o oedolion y DU bellach yn hyderus y byddai trip dros nos yn y DU yn mynd yn ei flaen fel y'i cynlluniwyd ym mis Mai eleni (cynnydd o 14 pwynt canran), 43% ar gyfer tripiau fis Mehefin (+11 pwynt canran), 55% ar gyfer mis Gorffennaf (+13 pwynt canran) a 61% ym mis Awst (+10 pwynt canran).
- Mae hyder ymhlith preswylwyr Cymru bellach yn wastad gyda hyder ar draws y DU, gwrthdroad ar gyfnodau adrodd blaenorol, lle roedd y tu ôl iddo.

**Ffigur 11. Hyder mewn mynd ar drip dros nos i'r DU ar draws ystod o fisoedd gwahanol, Canran net sy'n hyderus iawn ac yn weddol hyderus, Ton 30, y DU.**




CVB7anew. Hoffem i chi ddychmygu eich bod wedi archebu gwyliau neu wyliau byr yn y DU ym mhob un o'r cyfnodau amser a restrir isod. Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19 cyfredol, pa mor hyderus ydych chi y byddech chi'n gallu mynd ar y tripiau? Sylfaen: Holl ymatebwyr y DU. n = 1,758; Holl ymatebwyr Cymru n = 207.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhesymau dros beidio â theimlo’n hyderus ynglŷn â chymryd tripiau haf/gwanwyn yn y DU.

- ‘Cyfyngiadau ar deithio gan y llywodraeth’ yw’r prif reswm dros ddiffyg hyder mewn tripiau domestig dros nos yn mynd rhagddynt rhwng mis Mai a mis Medi eleni. Dyma hefyd oedd y prif reswm dros hyder isel yn y cyfnod adrodd blaenorol, ond roedd yr achosion yn nodi ei fod yn sylweddol uwch (59% o'i gymharu â 39%).
- Mae’n nodedig, am y tro cyntaf, bod ‘cyllid personol’ yn un o’r ‘3 prif reswm’.
- Mae preswylwyr Cymru yn fwy tebygol o gredu nad yw'n gyfrifol teithio ac i fod yn anfodlon teithio nes eu bod wedi'u brechu.

**Ffigur 12. Rhesymau dros beidio â theimlo’n hyderus ynglŷn â theithio ym mis Mai i fis Medi, Canran, Tonnau 29-30, y DU a Chymru**




CVB8a. Pa rai o’r ffactorau canlynol sy’n cyfrannu at eich ymdeimlad o ‘ddim yn hyderus iawn’ neu ‘ddim yn hyderus o gwbl’ ynglŷn â chymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU? Sylfaen: Holl ymatebwyr y DU nad ydynt yn hyderus ynglŷn â theithio rhwng mis Mai a mis Medi. n=1,518; Holl ymatebwyr Cymru n=164. *Cynhwyswyd Ton 29 i gynyddu maint sylfaen.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Hyder yn y gallu i gymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU

- Yn gyson â lefelau cyfforddusrwydd isel yn cynnal gweithgareddau bob dydd, mae ymddeolwyr ac annibynwyr hŷn yn sylweddol llai tebygol na chyn-nythwyr a theuluoedd o deimlo'n hyderus y byddai trip domestig dros nos yn mynd rhagddo rhwng mis Mai a mis Medi.
- Mae cyn-nythwyr a theuluoedd yn fwy hyderus y gallant fynd ar drip yn ystod y 3 mis nesaf.
- Fodd bynnag, dylid nodi bod hyder wedi cynyddu ar draws pob cyfnod bywyd ers y cyfnod adrodd blaenorol yng nghanol mis Chwefror 2021.

**Ffigur 13. Hyder wrth fynd ar drip dros nos yn y DU ar draws ystod o wahanol fisoedd yn ôl cyfnod bywyd, Canran net sy'n hyderus iawn ac yn weddol hyderus, Ton 30, y DU.**




CVB7anew. Hoffem i chi ddychmygu eich bod wedi archebu gwyliau neu wyliau byr yn y DU ym mhob un o'r cyfnodau amser a restrir isod. Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19 cyfredol, pa mor hyderus ydych chi y byddech chi'n gallu mynd ar y tripiau? Sylfaen: Cyn-nythwyr n = 363; Teuluoedd n = 554; Annibynnwyr Hŷn n = 500; Pobl sydd wedi ymddeol n = 341

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhesymau dros beidio â theimlo'n hyderus yn mynd ar dripiau yn y DU

- Ychydig iawn o wahanu sydd yng nghyfrannau pob cyfnod bywyd sy'n dyfynnu 'cyfyngiadau ar deithio gan y llywodraeth' fel rheswm dros hyder isel mewn teithio rhwng mis Mai a mis Medi. Mae rhesymau eraill, fodd bynnag, yn gwahanu'n eithaf sylweddol.
- Mae 'Cyn-nythwyr' a 'Theuluoedd' yn fwy tebygol o ddyfynnu 'llai o bethau i'w gwneud/lleoedd i ymweld â nhw', 'cyllid personol' a 'gwyliau blynyddol cyfyngedig'.
- Mae 'Ymddeolwyr' yn fwy tebygol o nodi 'anesmwythyd cyffredinol ynghylch teithio'. Yn nodedig, mae 'Ymddeolwyr' yn mynegeio'n is na'r cyfartaledd ar 'pryderon ynghylch dal COVID-19', gan nodi gwyro ar bob adroddiad blaenorol lle gwnaethant fynegeio'n sylweddol uwch. Mae hyn yn darparu tystiolaeth bellach bod y brechlyn wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau ymhlith y garfan oedran hon.

**Ffigur 14. Rhesymau dros beidio â theimlo'n hyderus ynglŷn â theithio ym mis Mai i fis Medi yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Tonnau 29-30, y DU a Chymru**




CVB8a. Pa rai o'r ffactorau canlynol sy'n cyfrannu at eich ymdeimlad o 'ddim yn hyderus iawn' neu 'ddim yn hyderus o gwbl' ynglŷn â chymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU? Sylfaen: Cyn-nythwyr n = 255; Teuluoedd n = 292; Annibynwyr Hŷn n = 306; Pobl sydd wedi ymddeol n = 222

# Hyder yn y gallu i gymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU

- Mae pobl dros 45 oed sydd wedi cael y brechlyn yn fwy hyderus na phobl dros 45 oed nad ydynt wedi cael y brechlyn y byddai tripiau dros nos yn y DU yn mynd rhagddynt rhwng mis Mehefin a mis Medi, gan danlinellu hynny ymhellach - er gwaethaf lefelau cyfforddusrwydd is, ac amseroedd arwain canfyddedig hirach hyd at gyrraedd normalrwydd - maent yn arddangos optimistiaeth uwch o amgylch COVID-19.

**Ffigur 15. Hyder wrth fynd ar drip dros nos yn y DU ar draws ystod o wahanol fisoedd yn ôl statws brechlyn, Canran net yn hyderus iawn ac yn weddol hyderus, Ton 30, y DU.**




CVB7anew. Hoffem i chi ddychmygu eich bod wedi archebu gwyliau neu wyliau byr yn y DU ym mhob un o'r cyfnodau amser a restrir isod. Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19 cyfredol, pa mor hyderus ydych chi y byddech chi'n gallu mynd ar y tripiau? Sylfaen: Dros 45 oed sydd wedi cael y brechlyn n = 694; Dros 45 oed nad ydynt wedi cael y brechlyn n = 154

Llywodraeth Cymru Welsh Government

BVA BDRC

# Effaith COVID ar ddewis cyrchfan

- Yn gyffredinol, mae COVID-19 wedi cael rhywfaint o effaith ar ddewis cyrchfan ar gyfer mwyafrif oedolion y DU.
- 'Rydym yn fwy tebygol o osgoi dinasoedd neu drefi mawr' yw'r prif ganlyniad, er bod ystod o ffactorau eraill yn dilyn hyn yn agos fel 'rydym yn aros yn agosach at adref na'r arfer', 'rydym yn osgoi lleoedd gyda thwristiaid o dramor' ac 'rydym yn fwy tebygol o osgoi llety a rennir'.

**Ffigur 17. Effaith COVID-19 ar ddewis cyrchfan, Canran, Ton 30, y DU a Chymru**




VB13fiii. O'i gymharu â'r arferol, sut byddech chi'n dweud bod COVID-19 wedi dylanwadu ar eich dewis o gyrchfan ar gyfer gwyliau neu wyliau byr yn y DU? Sylfaen: Holl ymatebwyr Ton 30. Preswylwyr y DU. n = 1,758. Preswylwyr Cymru n = 207.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Effaith COVID ar ddewis cyrchfan yn ôl cyfnod bywyd

- Mae ychydig o amrywiad yn effaith COVID-19 ar ddewis cyrchfan ar draws cyfnodau bywyd. Wedi dweud hynny, mae ymddeolwyr yn fwy tebygol nag unrhyw gyfnod bywyd arall o ddweud eu bod yn osgoi dinasoedd a threfi mawr. Cyn-nythwyr a theuluoedd yw'r rhai mwyaf tebygol o ddweud eu bod yn dewis lleoedd llai costus na'r arfer.

**Ffigur 18. Effaith COVID-19 ar ddewis cyrchfan yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Ton 30, y DU yn ôl cyfnod bywyd**




CVB8a. Pa rai o'r ffactorau canlynol sy'n cyfrannu at eich ymdeimlad o 'ddim yn hyderus iawn' neu 'ddim yn hyderus o gwbl' ynglŷn â chymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU? Sylfaen: Cyn-nythwyr n = 363; Teuluoedd n = 554; Annibynwyr Hŷn n = 500; Pobl sydd wedi ymddeol n = 341

# Bwriadau tripiau sydd ar ddod



# Pryd y rhagwelir mynd ar wyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU

- Mae 1 o bob 7 oedolyn yn y DU ac 1 o bob 9 oedolyn yng Nghymru yn rhagweld cymryd gwyliau byr dros nos neu wyliau yn y gwanwyn eleni (rhwng mis Mai a mis Mehefin), mae'r cydbwysedd yn gwyro'n drymach ym mis Mehefin.
- Yn yr haf, mae bron i draean (32%) o breswylwyr y DU a bron i 2 o bob 5 (38%) o breswylwyr Cymru yn bwriadu mynd ar drip domestig dros nos - dau ffigur sydd wedi cynyddu'n sylweddol ers y cyfnod adrodd blaenorol yng nghanol mis Chwefror 2021.
- Ymhlith oedolion y DU, mis Awst a mis Medi sy'n cynhyrchu'r gyfran uchaf o bobl sy'n cymryd tripiau – mis Awst ar gyfer oedolion yng Nghymru.
- Yn nodedig, mae cyfran oedolion y DU a Chymru nad ydynt yn bwriadu mynd ar unrhyw dripiau domestig dros nos yn sylweddol is nag yng nghanol mis Chwefror 2021.

**Ffigur 19. Cyfran sy'n rhagweld trip dros nos yn y DU ym mhob cyfnod amser, Canran, Ton 30, y DU.**




CVB2a. Wrth feddwl am y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf yn y DU rydych chi'n debygol o'u cymryd, pryd ydych chi'n debygol o gynllunio, archebu a mynd ar y trip hwn? Sylfaen: Holl ymatebwyr. Tonnau 28-30 Poblogaeth y DU n=1,758; Poblogaeth Cymru n=207.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfran sy’n rhagweld cymryd trip dros nos yn y gwanwyn a’r haf

- Yn nodedig, ymddeolwyr yw’r cyfnod bywyd sydd *fwyaf* tebygol o fynd ar drip domestig dros nos yn y gwanwyn - cyferbyniad â chyfnodau adrodd blaenorol lle maent wedi mynegeio'r isaf yn gyson ar gyfer bwriadau tripiau.
- Yn yr haf, cyn-nythwyr a theuluoedd yw'r rhai mwyaf tebygol o fynd ar drip dros nos yn y DU. Gyrrir hyn yn rhannol gan ffactorau tymhorol (fel gwyliau ysgol) ac mae'n gyson ag adroddiadau blaenorol, ond dylid nodi bod nifer yr achosion o fwriadau tripiau haf wedi cynyddu ar draws pob cyfnod bywyd.

**Ffigur 20. Cyfran sy’n rhagweld cymryd trip dros nos yn y DU yn y gwanwyn yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Ton 30, y DU.**




**Ffigur 21. Cyfran sy’n rhagweld cymryd trip dros nos yn yr haf yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Ton 30, y DU.**




CVB2a. Wrth feddwl am y gwyliau neu’r gwyliau byr nesaf yn y DU rydych chi'n debygol o'u cymryd, pryd ydych chi'n debygol o gynllunio, archebu a mynd ar y trip hwn? Sylfaen: Cyn-nythwyr n = 363; Teuluoedd n = 554; Annibynwyr Hŷn n = 500; Pobl sydd wedi ymddeol n = 341

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# P'un a yw gwyliau neu wyliau byr yn y DU wedi'u cynllunio neu wedi'u harchebu

- Mae mwyafrif bwriadwyr y gwanwyn eisoes wedi cynllunio (69%) ac eisoes wedi archebu (54%) eu trip gwanwyn nesaf.
- Mae bron i 2 o bob 5 (37%) o fwriadwyr yr haf wedi cynllunio eu trip haf ond dim ond 3 o bob 10 (29%) sydd wedi ei archebu.
- Mae'r holl ffigurau cynllunio ac archebu wedi codi'n sylweddol ers y cyfnod adrodd blaenorol, gan adlewyrchu'r cynnydd mewn hyder teithio domestig.
- Fodd bynnag, mae cyfran uchel o fwriadwyr tripiau yn y gwanwyn a'r haf eto i archebu ac yn dal i aros i weld.

**Ffigur 22. Cyfran bwriadwyr y gwanwyn sydd eisoes wedi cynllunio ac archebu eu trip, Canran, Ton 30, y DU.**




**Ffigur 23. Canran bwriadwyr yr haf sydd eisoes wedi cynllunio ac archebu eu trip, Canran, Ton 30, y DU.**




CVB2a. Wrth feddwl am y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf yn y DU rydych chi'n debygol o'u cymryd, pryd ydych chi'n debygol o gynllunio, archebu a mynd ar y trip hwn? Syflaen: Bwriadwyr y Gwanwyn n=641; Bwriadwyr yr Haf n=1,364

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# P'un a yw gwyliau neu wyliau byr yn y DU wedi'u cynllunio neu wedi'u harchebu

- Yn ogystal ag arddangos y bwriad uchaf i fynd ar drip yn y gwanwyn, annibynwyr hŷn ac ymddeolwyr hefyd yw’r cyfnodau bywyd sydd fwyaf tebygol o fod eisoes wedi *archebu* eu trip gwanwyn - er mai teuluoedd yw'r rhai mwyaf tebygol o fod eisoes wedi dechrau ei gynllunio.
- Ymddeolwyr ac annibynwyr hŷn hefyd yw’r rhai mwyaf tebygol o fod wedi archebu eu trip haf, gan danlinellu ymhellach eu hyder teithio o'r newydd.

**Ffigur 24. Cyfran bwriadwyr y gwanwyn sydd eisoes wedi cynllunio ac archebu eu trip yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Ton 30, y DU.**




**Ffigur 25. Canran bwriadwyr yr haf sydd eisoes wedi cynllunio ac archebu eu trip yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Ton 30, y DU.**




CVB2a. Wrth feddwl am y gwyliau neu’r gwyliau byr nesaf yn y DU rydych chi'n debygol o'u cymryd, pryd ydych chi'n debygol o gynllunio, archebu a mynd ar y trip hwn? Sylfaen: Bwriadwyr y Gwanwyn a’r Haf yn y DU: Cyn-nythwyr n=167; Teuluoedd n=186; Annibynwyr hŷn n =135; Ymddeolwyr n=95

# Amserau arwain cynllunio ac archebu a ragwelir

- Mae oedolion y DU sy'n cynllunio mynd ar drip domestig dros nos yn y gwanwyn yn nodi bod y cynllunio a'r archebu fel ei gilydd yn debygol o fod yn agosach at y dyddiad teithio nag sy'n 'arferol', er mai'r ateb mwyaf cyffredin yw eu bod yr un peth (tua hanner yn nodi hyn).
- Wedi ystyried yr holl ffactorau, mae tripiau haf yn debygol o gael eu cynllunio ymhellach o'r dyddiad nag sy'n arferol, ond wedi'u harchebu ychydig yn agosach nag sy'n arferol. Unwaith eto, mae tua hanner yn nodi y bydd cynllunio ac archebu yr un peth â'r arferol.

**Ffigur 26. Amseroedd arwain cynllunio ac archebu tripiau gwanwyn a haf o'i gymharu â'r arferol, Canran, Ton 30, y DU.**




VB6diic. O'i gymharu â'r arfer, pryd wnaethoch chi neu a fyddwch chi'n cynllunio ac yn archebu'ch trip nesaf i'r DU yng Nghymru? Syflaen: Bwriadwyr y Gwanwyn n=641; Bwriadwyr yr Haf n=1,364

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Proffilio tripiau dros nos y gwanwyn a'r haf yng Nghymru

BVA BDRC



# Lle cynllunir aros ar drip i'r DU y gwanwyn nesaf

- De Orllewin Lloegr yw'r gyrchfan ddewisol yn y DU ar gyfer pob person sy'n teithio yn y gwanwyn - safle y mae wedi'i dal yn gyson am y 12 mis diwethaf. Cymru yw'r ail fwyaf dewisol, ar y cyd â'r Alban ar 12%.
- Ymhlith bwriadwyr tripiau sy'n breswylwyr Cymru, bydd bron i hanner (46%) yn mynd ar eu trip dros nos nesaf yng Nghymru - De Orllewin a Gogledd-orllewin Lloegr y cyrchfannau amgen mwyaf poblogaidd.

**Ffigur 27. Lle cynllunir aros ar drip dros nos nesaf yn y DU yn y gwanwyn, Canran, Tonnau 28-30, y DU a Phreswylwyr o Gymru.**




CVB4a. Ble yn y DU ydych chi'n debygol o aros ar y trip nesaf hwn ym mis <>?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU yn y gwanwyn Bwriadwyr y DU (Gwanwyn) n = 641, Bwriadwyr sy'n Breswylwyr Cymru (Gwanwyn) n = 64

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Lle cynllunir aros ar drip i’r DU yr haf nesaf

- Mae De Orllewin Lloegr yn parhau i fod y gyrchfan a ffefrir ar gyfer bwriadwyr tripiau yn y DU yr haf hwn. Fel yn y gwanwyn, yr Alban yw'r ail fwyaf dewisol.
- Cymru yw'r seithfed cyrchfan fwyaf dewisol yn ystod misoedd yr haf, er ei bod wedi'i gwahanu gan ddim ond 2 bwynt canran (ffin nad yw'n ystadegol arwyddocaol) o'r trydydd dewis cyrchfan mwyaf dewisol (Gogledd-orllewin Lloegr).
- Yn union yr un fath â'r gwanwyn, mae 46% o fwriadwyr sy’n breswylwyr Cymru yn bwriadu mynd ar eu trip nesaf dros nos yng Nghymru.

**Ffigur 28. Lle cynllunir aros ar drip nesaf dros nos i’r DU yn yr Haf, Canran, Tonnau 28-30, Preswylwyr o’r DU ac o Gymru.**




CVB4a. Ble yn y DU ydych chi'n debygol o aros ar y trip nesaf hwn ym mis <>?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU. Bwriadwyr y DU (Haf) n = 1,364, Bwriadwyr sy’n Breswylwyr Cymru (Haf) n = 170

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bwriad i ymweld â Chymru yn ôl rhanbarth preswylio

- Fel yr amlinellwyd ar y ddwy dudalen flaenorol, mae bron i hanner y bwriadwyr sy'n breswylwyr Cymru yn cynllunio cymryd eu gwyliau domestig nesaf yng Nghymru. Fodd bynnag, mae mwyafrif llethol bwriadwyr Cymru yn byw *y tu allan* yng Nghymru – gyda rhanbarthau cyfagos Lloegr yn y Gogledd-orllewin a Gorllewin Canolbarth Lloegr y mwyaf tebygol o ddarparu ymwelwyr.

**Ffigur 29. Bwriad i fynd ar drip i Gymru yn ôl rhanbarth preswyl, Canran, Tonnau 28-30, y DU.**




**Ffigur 30. Dadansoddiad o fwriadwyr i Gymru yn ôl rhanbarth preswylio, Canran, Tonnau 28-30, y DU.**




CVB4a. Ble yn y DU ydych chi'n debygol o aros ar y trip nesaf hwn ym mis <>?
Sylfaen: Yr holl breswylwyr sy'n bwriadu cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU rhwng y gwanwyn/mis Gorffennaf- mis Medi. Preswylwyr ym mhob rhanbarth Cymru n = 64/170, Dwyrain Lloegr n = 44 * / 90; Dwyrain Canolbarth Lloegr n = 44 * / 94; Gogledd-ddwyrain Lloegr n = 17 ** / 50; Gogledd-orllewin Lloegr n = 62/118; De-ddwyrain Lloegr n = 90/167; De-orllewin Lloegr n = 57/78; Gorllewin Canolbarth Lloegr n = 46/130; Swydd Efrog a Humber n = 47/92; Llundain n = 62/153; Yr Alban n = 98/1974

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Demograffeg bwriadwyr i Gymru o'i chymharu â'r boblogaeth gyffredinol

- Teuluoedd sydd â’r gynrychiolaeth uchaf ymhlith bwriadwyr y gwanwyn a’r haf yng Nghymru (yn enwedig yn yr haf), gan fynegeio’n sylweddol uwch nag o fewn poblogaeth y DU a bwriadwyr yn y DU ar y cyfan.
- Yn nodedig, mae ymddeolwyr yn mynegeio'n uwch ymhlith bwriadwyr y gwanwyn, na'r cyhoedd - er mai ychydig yn unig ydyw.
- Mae gan raddau cymdeithasol AB a C1C2 gynrychiolaeth uwch ymhlith pobl fewnol nag ymhlith bwriadwyr na’r boblogaeth ehangach, gyda DEs (sy'n tueddu i fod yn hŷn) â bwriadau is i ymweld â Chymru ar draws y gwanwyn a’r haf.

**Ffigur 34. Dadansoddiad o boblogaethau a bwriadwyr yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Tonnau 28-30, y DU.**




**Ffigur 35. Dadansoddiad o boblogaethau a bwriadwyr yn ôl gradd gymdeithasol, Canran, Tonnau 28-30, y DU.**




Ffynhonnell: Demograffeg. Sylfaen: Yr holl ymatebwyr. Poblogaeth y DU n = 5,282; Bwriadwyr y Gwanwyn cynhwysol i Gymru n = 93; Bwriadwyr yr Haf cynhwysol i Gymru n = 215.

# Segmentau ariannol ac effaith ariannol COVID-19 ar fwriadwyr

- Mae bwriadwyr Cymru yn tueddu i fod wedi'u heffeithio'n ariannol ychydig yn llai gan COVID-19 na'r boblogaeth gyffredinol, dros hanner naill ai'n 'well eu byd nag o'r blaen' neu 'heb gael eu heffeithio'. Wedi dweud hynny, mae COVID-19 *wedi* effeithio'n ariannol ar fwy na 2 allan o 5 bwriadwyr y gwanwyn a'r haf, gan awgrymu y gallai cyllid fod yn bryder ar eu trip.

**Ffigur 33. Dadansoddiad o fwriadwyr yn ôl segmentau ariannol  Canran, Tonnau 28-30, y DU.**




C17. Pe bai'n rhaid i chi ddewis, pa un o'r datganiadau canlynol fyddai'n disgrifio'ch teimladau orau ar hyn o bryd? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr. Poblogaeth y DU n = 5,282; Bwriadwyr y Gwanwyn cynhwysol i Gymru n = 93; Bwriadwyr yr Haf cynhwysol i Gymru n = 215.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BVA BDRC

# Ymddygiad bwriadwyr trip dros nos yn y gwanwyn/haf

***Er mwyn sicrhau maint sampl cadarn, yn y bennod hon, unir tripiau gwanwyn a haf gyda'i gilydd. Mae bwriadau trip dros nos yng Nghymru yn cael eu siartio ochr yn ochr â bwriadau trip cyffredinol yn y DU fel cymhariaeth.***



# Pwrpas trip a hyd trip tripiau gwanwyn/haf

- Yn gyson ag adroddiadau blaenorol, mae mwyafrif helaeth y tripiau dros nos yng Nghymru rhwng mis Mai a mis Medi yn debygol o fod at bwrpas ‘gwyliau’, yn uwch nag ymhlith holl dripiau yn y DU lle mae ‘ymweliadau â ffrindiau neu berthnasau’ yn fwy cyffredin.
- Mae tripiau hirach o 4+ noson ychydig yn fwy amlwg na thripiau byrrach ymhlith bwriadwyr yng Nghymru a’r DU (yn enwedig yn ystod misoedd yr haf), er bod y cydbwysedd yn gymharol gyfartal.

**Ffigur 34. Pwrpas trip nesaf y gwanwyn/haf, Canran, Tonnau 28-30, y DU.**




**Ffigur 35. Hyd trip nesaf y gwanwyn/haf, Canran, Tonnau 28-30, y DU.**




CVB3. Ydy’r trip nesaf hwn yn debygol o fod yn wyliau byr (1-3 noson) neu'n wyliau (4+ noson)? VB6f. A pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau ddiben y daith hon? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n bwriadu cymryd gwyliau domestig neu wyliau byr yn y gwanwyn neu'r haf. Bwriadwyr y gwanwyn neu’r haf yn y DU. n = 2,005; Bwriadwyr y Gwanwyn neu’r Haf Unigryw i Gymru n = 173.

# Lle y cynllunir aros ar drip yng Nghymru yn y gwanwyn a’r haf

- Sir Benfro yw'r brif gyrchfan ar gyfer trip dros nos yng Nghymru rhwng mis Mai a mis Medi, wedi’i ddilyn yn agos gan Gaerdydd ac Eryri.

**Ffigur 36. Cyrchfan a gynllunir ar gyfer y trip nesaf yng Nghymru yn y gwanwyn/haf, Canran, Tonnau 28-30, y DU a Chymru.**




CVB4b. Ble yng Nghymru ydych chi'n disgwyl aros ar y gwyliau neu’r gwyliau byr nesaf hwn?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n bwriadu cymryd gwyliau domestig neu wyliau byr yn y gwanwyn neu'r haf n = 245.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Lle y cynllunir aros ar drip yng Nghymru yn y Gwanwyn a'r Haf

- Wrth edrych ar fwriadau cyrchfan Cymru yn ôl rhanbarth preswyl, Sir Benfro yw'r gyrchfan fwyaf dewisol o bell ffordd i oedolion yng Nghymru y gwanwyn/haf hwn, fwy na dwywaith cymaint o fwriadwyr nag Eryri.
- Mae gan breswylwyr y tu allan i Gymru ystod ehangach o gyrchfannau arfaethedig - ar gyfer y gynulleidfa hon, Caerdydd yw'r dewis sengl mwyaf dewisol ar 18%, ac yna Eryri ar 15% ac Ynys Môn ar 12%.

**Ffigur 37. Cyrchfan cynlluniedig trip nesaf yng Nghymru ar gyfer Bwriadwyr y gwanwyn a'r haf yn ôl preswylfa, Canran, Tonnau 28-30, y DU a Chymru.**




CVB4b. Ble yng Nghymru ydych chi'n disgwyl aros ar y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf hwn?
Yr holl ymatebwyr sy'n bwriadu cymryd gwyliau domestig neu wyliau byr yn y gwanwyn neu'r haf rhwng mis Mawrth a mis Medi. Holl fwriadwyr sy'n breswylwyr Cymru n = 106; Bwriadwyr nad ydynt yn breswylwyr Cymru n = 139.

# Prif ddull trafnidiaeth ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf i Gymru

- Ymhlith bwriadwyr y DU a Chymru, ‘car fy hun’ yw’r prif ddull trafnidiaeth y bwriedir ei ddefnyddio o bell ffordd, er bod hyn yn sylweddol fwy tebygol o fod yn wir am dripiau yng Nghymru.
- Trên yw'r ail ddull trafnidiaeth mwyaf dewisol, er yn fwy felly ar gyfer tripiau yn y DU lle mae cyrchfannau dinas yn fwy poblogaidd.

**Ffigur 38. Y 5 prif ddull teithio i gyrfchfan ar gyfer bwriadwyr y gwanwyn/haf, Canran, Tonnau 28-30, y DU.**




CVB4c. Beth ydych chi'n rhagweld fydd y prif ddull teithio i'ch cyrchfan gwyliau neu wyliau byr?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n bwriadu cymryd gwyliau domestig neu wyliau byr yn y gwanwyn neu’r haf. Bwriadwyr y gwanwyn neu’r haf, y DU. n = 2,005; Bwriadwyr y gwanwyn neu’r haf Unigryw i Gymru n = 173.

# Math o gyrchfan ar gyfer yr y gwyliau byr neu'r gwyliau nesaf

- ‘Cefn gwlad neu bentref’, ‘tref arfordirol/glan môr traddodiadol’ ac ‘arfordir gwledig’ yw’r tri math o gyrchfan a ffefrir ar gyfer bwriadwyr y gwanwyn/haf yng Nghymru eleni.
- Mae bwriadwyr y DU yn rhannu hoffter tebyg o ran math o gyrchfan, er eu bod yn sylweddol llai tebygol o fod yn bwriadu ymweld â'r arfordir gwledig ac yn sylweddol fwy tebygol o fod yn bwriadu ymweld â dinas neu dref.

**Ffigur 39. Prif fath o gyrchfan ar gyfer bwriadwyr y gwanwyn/haf, Canran, Tonnau 28-30, y DU.**




CVB5a. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau’r prif fathau o gyrchfan rydych chi'n debygol o aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU orau?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n bwriadu cymryd gwyliau domestig neu wyliau byr yn y gwanwyn neu’r haf. Bwriadwyr y gwanwyn neu’r haf, y DU. n = 2,005; Bwriadwyr y gwanwyn neu’r haf Unigryw i Gymru n = 173.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys parti ymwelwyr ar gyfer y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf

- Mae bwriadwyr Cymru a’r DU yn debygol o ddenu cyfansoddiadau partïon tebyg ar dripiau dros nos y gwanwyn/haf hwn – mae teithio gyda ‘partner’ yn ffurfio tua 3 o bob 5, ac yna teithio gyda ‘plant’ (2 o bob 5). Nid yw'n syndod bod gan bartïon â phlant gyffredinrwydd cryfach yn ystod misoedd yr haf.
- Mae ‘aelodau eraill o’r teulu’ a ‘ffrindiau’ ill dau yn cyfrif am oddeutu 1 o bob 5 o bartïon ymwelwyr.
- Mae teithio gydag anifeiliaid anwes yn fwy tebygol ar gyfer tripiau a gymerir yng Nghymru.

**Ffigur 40. Cyfansoddiad parti ymwelwyr ar gyfer bwriadwyr y gwanwyn/haf, Canran, Tonnau 28-30, y DU.**




CVB4d. Gyda phwy ydych chi'n debygol o fod yn treulio'ch gwyliau?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n bwriadu cymryd gwyliau domestig neu wyliau byr yn y gwanwyn neu’r haf. Bwriadwyr y gwanwyn neu’r haf, y DU. n = 2,005; Bwriadwyr y gwanwyn neu’r haf Unigryw i Gymru n = 173.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Math o lety ar gyfer y gwyliau byr neu'r gwyliau nesaf

- Ystyrir ystod o fathau o lety gan fwriadwyr tripiau yng Nghymru a’r DU yn y Gwanwyn/Haf - y gwahaniad lleiaf posibl rhwng arosiadau mewn carafán/gwersylla, cartref preifat, gwesty/motel/tafarn a hunanarlwyo masnachol.
- Ar gyfartaledd, mae bwriadwyr yn ystyried bron i 2 fath o lety, efallai'n adlewyrchu ansicrwydd parhaus ynghylch argaeledd a chyfyngiadau'r llywodraeth.

**Ffigur 41. Llety y cynllunir aros ynddo ar drip dros nos nesaf yn y DU ar gyfer Bwriadwyr y gwanwyn/haf, Canran net, Tonnau 28-30, y DU.**




CVB6a. Pa fath/au o lety ydych chi'n disgwyl y byddwch chi'n aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU ym mis <>?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n bwriadu cymryd gwyliau domestig neu wyliau byr yn y gwanwyn neu’r haf. Bwriadwyr y gwanwyn neu’r haf, y DU. n = 2,005; Bwriadwyr y gwanwyn neu’r haf Unigryw i Gymru n = 173.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Math o lety ar gyfer y gwyliau byr neu'r gwyliau nesaf

- ‘Carafan statig’ yw’r prif ddewis ymhlith bwriadwyr Cymru a’r DU sy’n cynllunio arhosiad mewn llety ‘gwersylla/carafán’ y gwanwyn/haf hwn.
- ‘Cartref ffrind neu berthynas’ yw’r dewis cartref preifat mwyaf poblogaidd.

**Ffigur 42. Math o lety gwersylla/carafanio y cynllunir aros ynddo ar y trip dros nos nesaf ar gyfer bwriadwyr y gwanwyn/haf, Canran net, Tonnau 28-30, y DU.**




**Ffigur 43. Math o lety cartref preifat y cynllunir aros ynddo ar y trip dros nos nesaf ar gyfer bwriadwyr y gwanwyn/haf, Canran net, Tonnau 28-30, y DU.**




CVB6a. Pa fath/au o lety ydych chi'n disgwyl y byddwch chi'n aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU ym mis <>?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n bwriadu cymryd gwyliau domestig neu wyliau byr yn y gwanwyn neu’r haf. Bwriadwyr y gwanwyn neu’r haf, y DU. n = 2,005; Bwriadwyr y gwanwyn neu’r haf Unigryw i Gymru n = 173.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwariant disgwyliedig ar y gwyliau neu wyliau byr nesaf

- Ar gyfartaledd, mae bwriadwyr y gwanwyn/haf yng Nghymru yn disgwyl gwario dros £100 yn llai ar eu trip dros nos yn y gwanwyn/haf na bwriadwyr y DU (£712 o gymharu â £816). Mae hyn er gwaethaf Cymru yn denu cyfran uwch o'r cyfnod bywyd teuluoedd sy'n gwario mwy.)

**Ffigur 44. Gwariant a ragwelir ar gyfer bwriadwyr y gwanwyn/haf, Canran, Tonnau 28-30, y DU.**




**Ffigur 45. Gwariant cyfartalog a ragwelir ar gyfer bwriadwyr y gwanwyn/haf, Cyfartaledd, Tonnau 28-30, y DU.**




CVB6e. Tua faint ydych chi'n meddwl bydd cyfanswm cost y trip hwn?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n bwriadu cymryd gwyliau domestig neu wyliau byr yn y gwanwyn neu'r haf. Bwriadwyr y gwanwyn neu'r haf Unigryw i Gymru n = 166; Bwriadwyr y gwanwyn neu'r haf yn y DU. n = 1907

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Gwariant disgwyliedig ar y gwyliau neu wyliau byr nesaf

- Ar lefel bwriadwyr y DU, teuluoedd yw'r cyfnod bywyd gwariant uchaf o bell ffordd ar gyfer tripiau dros nos yn ystod y gwanwyn/haf. Ymddeolwyr ac annibynwyr hŷn yw'r isaf, sy'n debygol o gael eu gyrru gan bartïon ymwelwyr llai na chyfnodau bywyd eraill.
- Tra bod bwriadwyr Cymru sy'n deuluoedd yn dal i wario mwy na chyfnodau bywyd hŷn, mae eu gwariant ar gyfartaledd bron i £200 yn llai na Bwriadwyr y DU sy'n deuluoedd, gan awgrymu bod ymwelydd teuluol Cymru yn fwy tebygol o fod yn chwilio am drip sydd o 'werth da'.
- Mae hyn yn esbonio pam, er gwaethaf cyfran uwch o deuluoedd na thripiau yn y DU ar y cyfan, fod y gwariant ar gyfartaledd am drip dros nos yng Nghymru yn is.

**Ffigur 46. Gwariant cyfartalog a ragwelir ar gyfer bwriadwyr y gwanwyn/haf, Cyfartaledd, Tonnau 28-30, y DU.**




CVB6e. Tua faint ydych chi'n meddwl bydd cyfanswm cost y trip hwn?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n bwriadu cymryd gwyliau domestig neu wyliau byr yn y gwanwyn neu'r haf. Bwriadwyr y DU/Cymru. Cyn-nythwyr n = 48/428; Teuluoedd n = 103/683; Annibynwyr hŷn n = 45/467; Ymddeolwyr n = 38/329.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Dewis ddull archebu ar gyfer gwyliau byr neu wyliau

- Mae bwriadwyr y gwanwyn/haf yn y DU a Chymru yn fwyaf tebygol o archebu'n uniongyrchol gyda'r darparwr llety.
- Mae asiant teithio ar-lein, gwefan asiant teithio traddodiadol a gwefan Homestay yn ffurfio sianelau archebu blaenllaw eraill.

**Ffigur 47. Sianel archebu llety ar gyfer bwriadwyr y gwanwyn/haf, Canran net, Tonnau 28-30, y DU.**




VB6d. Sut fyddech chi'n ddelfrydol yn archebu neu ydych chi eisoes wedi archebu'ch llety ar gyfer eich trip i'r DU? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n bwriadu cymryd gwyliau domestig neu wyliau byr yn y gwanwyn neu’r haf. Bwriadwyr y gwanwyn neu’r haf, y DU. n = 2,005; Bwriadwyr y gwanwyn neu’r haf Unigryw i Gymru n = 173.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Sianel archebu dewisol ar gyfer holl fwriadwyr i'r DU yn ôl cyfnod bywyd

- Mae dewisiadau archebu yn amrywio'n sylweddol yn ôl cyfnod bywyd - Ymddeolwyr yw'r rhai mwyaf tebygol o ffafrio archebion uniongyrchol, a'r lleiaf tebygol o ddewis opsiynau ar-lein.
- Mewn cyferbyniad, mae Cyn-nythwyr yn mynegeio uchaf ar gyfer asiantau teithio ar-lein a gwefannau Homestay. Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â chyfnodau adrodd blaenorol.

**Ffigur 48. Sianel archebu llety ar gyfer bwriadwyr y gwanwyn neu'r haf yn ôl cyfnod bywyd, Canran net, Tonnau 28-30, y DU.**




VB6d. Sut fyddech chi'n ddelfrydol yn archebu neu ydych chi eisoes wedi archebu'ch llety ar gyfer eich trip i'r DU? Syflaen: Cyn-nythwyr n = 464; Teuluoedd n = 725; Annibynwyr Hŷn n = 479; Pobl sydd wedi ymddeol n = 337

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Teithio ar gyfer busnes



# Y bwriad i fynd ar drip busnes dros nos erbyn Mehefin 2021

- Dim ond 10% o oedolion y DU mewn cyflogaeth sy'n bwriadu mynd ar drip busnes dros nos erbyn mis Mehefin 2021, gan ostwng ychydig i 8% o breswylwyr Cymru. Cyfarfod yw'r rheswm mwyaf cyffredin o bell ffordd dros drip dros nos – gyda bron i hanner yn ei ddewis.

**Ffigur 49. Cyfran sy'n rhagweld trip busnes dros nos erbyn mis Mehefin 2021, Canran, Tonnau 28 + 30, y DU.**




**Ffigur 50. Rhesymau dros fynd ar drip busnes dros nos, Canran, Tonnau 28 + 30, Preswylwyr y DU mewn cyflogaeth.**




VB14a. Bellach o edrych ymlaen, a ydych yn bwriadu cymryd unrhyw dripiau busnes dros nos yn y DU rhwng nawr a Mehefin 2021? Sylfaen: Pob un mewn cyflogaeth: Preswylwyr y DU mewn cyflogaeth n=2629; Preswylwyr Cymru mewn cyflogaeth n=297. Preswylwyr y DU sy'n cymryd trip n=200.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymddygiad tuag at dripiau dydd a hamdden cyffredinol



BVA BDRC

# Bwriadau trip dydd yn ôl math o gyrchfan

- Ar ddechrau mis Mai 2021, mae dros 3 o bob 5 (62%) o breswylwyr y DU a bron i 7 o bob 10 (68%) o breswylwyr Cymru yn bwriadu mynd ar drip dydd erbyn yr haf hwn. Mae bwriadau trip dydd ar ei uchaf ar gyfer ardaloedd cyrchfannau llai poblog fel 'tref arfordirol/glan môr traddodiadol' a 'chefn gwlad neu bentref'.
- Mae bwriadau trip yn is ar gyfer ardaloedd trefol fel 'dinas fawr' - er y gyrrir hyn yn rhannol gan agosrwydd cyrchfannau dinas, mae hefyd yn adlewyrchu lefelau cyfforddusrwydd isel ar gyfer ymweld â'r math hwn o gyrchfan.

**Ffigur 51. Tebygolrwydd o fynd ar drip dydd yn gyffredinol ac yn ôl math o gyrchfan erbyn yr haf hwn, Canran, Tonnau 28-30, y DU.**




CVB16a. Ydych chi'n debygol o fynd ar unrhyw dripiau dydd i'r mathau canlynol o leoedd yn y cyfnodau amser hyn?
Sylfaen: Ymatebwyr Ton 30 n = 1,758.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

BVA BDRC

# Bwriadau trip dydd yn ôl math a chyfnod bywyd

- At ei gilydd, mae gan gymerwyr tripiau dydd gynrychiolaeth uwch ymhlith cyn-nythwyr a theuluoedd o gymharu â phoblogaeth ehangach y DU.
- Mae dadansoddiad cyfnod bywyd yn wahanol yn ôl cyrchfan tripiau dydd, gyda grwpiau iau yn dangos ffafriaeth i ymweld â dinas fawr, ac i raddau llai ar gyfer ‘dinas neu drefi llai’.
- Mae teuluoedd yn dangos diddordeb mewn mynd ar dripiau dydd i leoliadau trefol a gwledig.

**Ffigur 52. Dadansoddiad o fwriadwyr trip dydd * yn ôl cyfnod bywyd, Canran, Tonnau 28-30, y DU**




CVB16a. Ydych chi'n debygol o fynd ar unrhyw dripiau dydd i'r mathau canlynol o leoedd yn y cyfnodau amser hyn?
Sylfaen: Ymatebwyr Ton 30 n = 1,758.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gweithgaredd tueddol a ragwelir o’i gymharu â’r ‘arfer’ yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf

- Mae trefn gweithgaredd hamdden cyffredinol a ragwelir o'i gymharu â'r arferol wedi aros yn gyson i raddau helaeth ers dechrau'r pandemig.
- Mae bwriadau'n parhau'n gryfach ar gyfer atyniadau a gweithgareddau awyr agored.
- Fodd bynnag, mewn tonnau diweddar ymddengys bod rhywfaint o gydgyfeiriant rhwng ymgysylltu ‘awyr agored’ a ‘dan do’ - y ddau yn araf yn agosáu at normalrwydd.

**Ffigur 53. Lleoliadau a gweithgareddau hamdden sy'n fwy neu'n llai tebygol o ymweld â nhw/eu gwneud wrth i’r cyfyngiadau clo gael eu codi, Net: ‘mwy tebygol’ minws ‘llai tebygol’, Tonnau 1-30, y DU.**




CVB9a/b. VB10a/b. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o leoedd yn y DU ydych chi'n fwyaf tebygol na'r arfer o ymweld â nhw dros yr ychydig fisoedd nesaf? Wrth ddefnyddio’r gair ‘arfer’ golygwn eich ymddygiad nodweddiadol pe na bai pandemig COVID-19 wedi digwydd.
Sylfaen: Pob ymatebydd y DU. n = 1,750



Llywodraeth Cymru Welsh Government
Bva BDRC

# Gweithgaredd a ragwelir o'i gymharu â'r 'arfer' yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf

- Ar ddechrau mis Mai 2021, mae oedolion y DU a Chymru yn rhagweld ymgysylltu'n sylweddol fwy nag arfer ag 'ardaloedd awyr agored', 'gweithgareddau hamdden awyr agored neu chwaraeon' ac 'atyniadau ymwelwyr awyr agored' - mae'r ymgysylltiad â'r olaf yn cynyddu'n sylweddol ers y cyfnod adrodd blaenorol yng nghanol mis Chwefror.
- Mae oedolion Cymru hefyd yn fwy tebygol nag arfer o fod yn cynllunio ymweld ag 'adloniant a digwyddiadau' ac 'atyniadau dan do', o gymharu â'r hyn sy'n arferol.

**Ffigur 54. Lleoliadau a gweithgareddau adloniant a digwyddiadau sy'n fwy neu'n llai tebygol o ymweld â nhw/eu gwneud wrth i'r cyfyngiadau clo gael eu codi, Net: 'mwy tebygol' minws 'llai tebygol' Ton 30, y DU a Chymru.**




CVB9a/b. VB10a/b. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o leoedd yn y DU ydych chi'n fwyaf tebygol na'r arfer o ymweld â nhw dros yr ychydig fisoedd nesaf? Wrth ddefnyddio'r gair 'arfer' golygwn eich ymddygiad nodweddiadol pe na bai pandemig COVID-19 wedi digwydd. Sylfaen: Pob ymatebydd y DU. n = 1,758; Pob ymatebydd o Gymru n = 207

Llywodraeth Cymru Welsh Government

BVA BDRC

# Gweithgaredd a ragwelir o'i gymharu â'r 'arfer' yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf

- Mae oedolion y DU a Chymru yn rhagweld y byddant yn ymweld â bwytai gyda seddi awyr agored gryn dipyn yn fwy na'r arfer yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.
- Yn wahanol i gyfnodau adrodd blaenorol, maent hefyd yn rhagweld ymweld â mwy o fwytai *dan do* nag arfer – ychydig i breswylwyr y DU ac yn sylweddol felly i breswylwyr Cymru.
- Mae gweithgareddau adloniant a digwyddiadau eraill - gan gynnwys ymweld â gwyliau, sinemâu/theatrau a chlybiau nos yn debygol o barhau i gynhyrchu llai o ymweliadau, er bod hyn yn llai gwir nag mewn adroddiadau blaenorol neu ymhlith preswylwyr Cymru.

**Ffigur 55. Lleoliadau a gweithgareddau adloniant a digwyddiadau sy'n fwy neu'n llai tebygol o ymweld â nhw/eu gwneud wrth i'r cyfyngiadau clo gael eu codi, Net: 'mwy tebygol' minws 'llai tebygol' Ton 30, y DU a Chymru.**




CVB9a/b. VB10a/b. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o leoedd yn y DU ydych chi'n fwyaf tebygol na'r arfer o ymweld â nhw dros yr ychydig fisoedd nesaf? Wrth ddefnyddio'r gair 'arfer' golygwn eich ymddygiad nodweddiadol pe na bai pandemig COVID-19 wedi digwydd. Sylfaen: Pob ymatebydd y DU. n = 1,758; Pob ymatebydd o Gymru n = 207

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Gweithgaredd a ragwelir o'i gymharu â'r 'arfer' yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf

- Yn ystod y 12 mis diwethaf, 'gardd neu barc gwledig' yn gyson fu'r unig fath o atyniad ymwelwyr a fyddai'n profi bwriadau ymweld â chynnydd net mawr. Yn gadarnhaol, ar ddechrau mis Mai 2021, mae 'cestyll, caerau neu safleoedd hanesyddol eraill' a 'sŵau/atyniadau fferm' yn ymuno â'r math hwn o atyniad wrth gynhyrchu bwriadau ymweld cadarnhaol net.
- Ymhlith preswylwyr Cymru, bydd ymgysylltiad cadarnhaol hefyd â rhai atyniadau dan do gan gynnwys 'tai/palasau hanesyddol', 'rheilffyrdd golygfaol' a 'parciau thema'. Dim ond tri math o atyniad a welir y byddant yn cynhyrchu llai o ymweliadau nag arfer ymhlith preswylwyr Cymru, ac mae hyn gryn dipyn yn llai nag ar ddechrau 2021.

**Ffigur 56. Lleoliadau a gweithgareddau adloniant a digwyddiadau sy'n fwy neu'n llai tebygol o ymweld â nhw/eu gwneud wrth i'r cyfyngiadau clo gael eu codi, Net: 'mwy tebygol' minws 'llai tebygol' Ton 30, y DU a Chymru.**




CVB9a/b. VB10a/b. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o leoedd yn y DU ydych chi'n fwyaf tebygol na'r arfer o ymweld â nhw dros yr ychydig fisoedd nesaf? Wrth ddefnyddio'r gair 'arfer' golygwn eich ymddygiad nodweddiadol pe na bai pandemig COVID-19 wedi digwydd. Sylfaen: Pob ymatebydd y DU. n = 1,758; Pob ymatebydd o Gymru n = 207

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gweithgaredd a ragwelir o'i gymharu â'r 'arfer' yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf

- Mae oedolion y DU a Chymru yn parhau i fod yn sylweddol fwy tebygol o ymweld ag ardaloedd awyr agored fel traethau, mynyddoedd neu fryniau/ardaloedd gwledig, a theithiau cerdded/llwybrau arfordirol - pob un yn sylweddol fwy felly ymhlith preswylwyr Cymru.

**Ffigur 57. Lleoliadau a gweithgareddau adloniant a digwyddiadau sy'n fwy neu'n llai tebygol o ymweld â nhw/eu gwneud wrth i'r cyfyngiadau clo gael eu codi, Net: 'mwy tebygol' minws 'llai tebygol' Ton 30, y DU a Chymru.**




CVB9a/b. VB10a/b. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o leoedd yn y DU ydych chi'n fwyaf tebygol na'r arfer o ymweld â nhw dros yr ychydig fisoedd nesaf? Wrth ddefnyddio'r gair 'arfer' golygwn eich ymddygiad nodweddiadol pe na bai pandemig COVID-19 wedi digwydd. Sylfaen: Pob ymatebydd y DU. n = 1,758; Pob ymatebydd o Gymru n = 207

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gweithgaredd a ragwelir o'i gymharu â'r 'arfer' yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf

- Yn gyson â chyfnodau adrodd blaenorol, mae preswylwyr Cymru a'r DU yn rhagweld cynnydd net mawr yn y tebygolrwydd o fynd i gerdded/heicio dros yr ychydig fisoedd nesaf. Rhagwelir hefyd y bydd cynnydd bach mewn gweithgaredd antur a beicio/beicio mynydd gan drigolion Cymru.
- Mae'n debygol y bydd gostyngiad net yn y mwyafrif o weithgareddau awyr agored eraill, yn gymharol gyson ag adroddiadau blaenorol.

**Ffigur 58. Lleoliadau a gweithgareddau adloniant a digwyddiadau sy'n fwy neu'n llai tebygol o ymweld â nhw/eu gwneud wrth i'r cyfyngiadau clo gael eu codi, Net: 'mwy tebygol' minws 'llai tebygol' Ton 30, y DU a Chymru.**




CVB9a/b. VB10a/b. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o leoedd yn y DU ydych chi'n fwyaf tebygol na'r arfer o ymweld â nhw dros yr ychydig fisoedd nesaf? Wrth ddefnyddio'r gair 'arfer' golygwn eich ymddygiad nodweddiadol pe na bai pandemig COVID-19 wedi digwydd. Sylfaen: Pob ymatebydd y DU. n = 1,758; Pob ymatebydd o Gymru n = 207

# Gweithgaredd a ragwelir o'i gymharu â'r 'arfer' yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf

- Mae'r ymgysylltiad a ragwelir â nofio dan do bellach yn gyson ag ymddygiad arferol ymhlith preswylwyr y DU ac uwchlaw ymddygiad arferol ymhlith preswylwyr Cymru.
- Mae oedolion y DU a Chymru fel ei gilydd yn rhagweld ymgysylltiad is â 'thriniaethau sba/harddwch/iechyd' ac 'encilion neu fyfyrdod', er eu bod yn gyson â gweithgareddau eraill, maent yn uwch nag yn y cyfnod adrodd blaenorol.

**Ffigur 59. Lleoliadau a gweithgareddau adloniant a digwyddiadau sy'n fwy neu'n llai tebygol o ymweld â nhw/eu gwneud wrth i'r cyfyngiadau clo gael eu codi, Net: 'mwy tebygol' minws 'llai tebygol' Ton 30, y DU a Chymru.**




CVB9a/b. VB10a/b. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o leoedd yn y DU ydych chi'n fwyaf tebygol na'r arfer o ymweld â nhw dros yr ychydig fisoedd nesaf? Wrth ddefnyddio'r gair 'arfer' golygwn eich ymddygiad nodweddiadol pe na bai pandemig COVID-19 wedi digwydd. Sylfaen: Pob ymatebydd y DU. n = 1,758; Pob ymatebydd o Gymru n = 207

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Tripiau dros nos a gymerwyd ers Ebrill 2021

*Sylwch ar feintiau sylfaen bach ar gyfer tripiau a gymerwyd yng Nghymru.  Mae'r data yn ddangosol yn unig.*



BVA BDRC

# Tripiau dros nos a gymerwyd a phwrpas tripiau ers Ebrill 2021

- Mae 1 o bob 7 o oedolion y DU a Chymru yn nodi eu bod wedi cymryd gwyliau dros nos neu wyliau byr ers mis Ebrill.
- Roedd mwyafrif llethol (77%) y tripiau a gymerwyd yng Nghymru at bwrpas ‘gwyliau’, mewn cyferbyniad â phob trip yn y DU a rannwyd yn gymharol gyfartal rhwng gwyliau (46%) ac ymweliadau â ffrindiau neu berthnasau (43%).

**Ffigur 60. Wedi cymryd gwyliau neu wyliau byr dros nos yn y DU ers Ebrill, Canran, Ton 30, y DU.**




**Ffigur 61. Pwrpas y gwyliau neu wyliau byr a fwriadwyd neu a gymerwyd yn y DU a Chymru, Canran, Tonnau 29-30, y DU.**




CVB13a. A ydych eisoes wedi cymryd gwyliau byr neu wyliau dros nos yn y DU ers dechrau mis Gorffennaf? VB13e. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau bwrpas y trip a gymerwyd gennych?
Sylfaen: Holl Ymatebwyr Ton 30. Preswylwyr y DU n=1,758. Preswylwyr Cymru n=207.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Demograffeg y rhai sy'n cymryd tripiau dros nos ers mis Ebrill

- Roedd dros hanner y rhai a gymerodd dripiau yn y DU a Chymru ers mis Ebrill yn perthyn i gyfnod bywyd teuluoedd (yn sylweddol uwch na'u cynrychiolaeth yn y boblogaeth), 1 o bob 5 i'r cyfnod bywyd cyn-nythwyr (yn lefel gyda'r poblogaethau). Lleiafrif bach yn unig oedd yn ymddeolwyr neu'n annibynwyr hŷn - y ddau â chynrychiolaeth is nag yn y boblogaeth.
- O'i gymharu â'r boblogaeth ehangach, roedd graddau cymdeithasol AB yn gynrychiolaeth sylweddol fwy ymhlith y rhai a gymerodd dripiau yn y DU a Chymru.

**Ffigur 62. Dadansoddiad o'r boblogaeth a chymerwyr tripiau yn ôl cyfnod bywyd, Tonnau 29-30, y DU.**




**Ffigur 63. Dadansoddiad o'r boblogaeth a chymerwyr tripiau yn ôl gradd gymdeithasol, Tonnau 29-30, y DU**




Ffynhonnell: Demograffeg. Sylfaen: Holl Ymatebwyr Poblogaeth y DU n=8947  Holl gymerwyr tripiau yn y DU ers Ebrill n=510; Holl gymerwyr tripiau yng Nghymru  n=62

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Effaith ariannol COVID-19 ar y rhai sy'n cymryd tripiau dros nos

- Mae cymerwyr tripiau yn y DU a Chymru yn fwy tebygol o nodi eu bod yn well eu byd yn ariannol na chyn COVID neu nad ydynt wedi cael eu heffeithio.

**Ffigur 64. Dadansoddiad o gymerwyr tripiau o'i gymharu â bwriadwyr yn ôl segmentau ariannol, Canran, Tonnau 29-30 y DU**




C17. Pe bai'n rhaid i chi ddewis, pa un o'r datganiadau canlynol fyddai'n disgrifio'ch teimladau orau ar hyn o bryd? Sylfaen: Holl Ymatebwyr. Poblogaeth y DU. n = 8947 Holl gymerwyr tripiau yn y DU ers Ebrill n = 510; Holl gymerwyr tripiau yng Nghymru n=62

# Lle yr arhoswyd ar dripiau dros nos y DU ers mis Ebrill

- Mae gan dripiau a gymerwyd ledled y DU gyfan ers mis Ebrill batrwm gwahanol i'r normal, gyda Dwyrain Lloegr a Dwyrain Canolbarth Lloegr yn derbyn y gyfran uchaf o bobl sy'n cymryd tripiau ac yna Gogledd-orllewin Lloegr a Llundain.
- Gall y newid hwn ym mhatrymau tripiau yn y DU adlewyrchu'r nifer uwch nag sy'n arferol o ymweliadau â ffrindiau neu deulu ers mis Ebrill.
- Ymhlith cymerwyr tripiau sy'n breswylwyr Cymru, Cymru oedd y gyrchfan yr ymwelwyd â hi fwyaf o bell ffordd, sef 70%, gan adlewyrchu cyfyngiadau teithio ar waith yng Nghymru am ran o Ebrill.

**Ffigur 65. Lle yr arhoswyd ar drip dros nos ym mis Ebrill, Canran, Tonnau 29-30, Preswylwyr y DU a Chymru, Wedi'u graddio ar wyliau**




VB13c. Ble yn y DU wnaethoch chi aros ar y trip hwn ym mis Ebrill?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a aeth ar drip dros nos yn y DU. Cymerwyr tripiau sy'n breswylwyr y DU n = 510; Cymerwyr tripiau sy'n breswylwyr Cymru n = 57

# Mathau o leoliad tripiau dros nos a gymerwyd ers mis Ebrill

- Ymddengys bod lleoliad y tripiau a gymerwyd ers mis Ebrill hefyd yn cael ei effeithio gan y gwahaniaeth yn y mathau o dripiau a gymerir yng Nghymru na'r DU gyda'r mwyafrif o dripiau yng Nghymru ar gyfer gwyliau o gymharu â chymysgedd o wyliau ac ymweliadau â ffrindiau a pherthnasau ledled y DU gyfan.
- Roedd tripiau a gymerwyd ledled y DU gyfan yn llawer mwy tebygol o fod i ardaloedd trefol o gymharu â thripiau a gymerwyd yng Nghymru.
- Roedd tripiau a gymerwyd yng Nghymru yn fwyaf tebygol o fod wedi cael eu cymryd i ardaloedd cefn gwlad gwledig.

**Ffigur 66. Prif fath o gyrchfan ar gyfer trip dros nos ym mis Ebrill, Canran, Tonnau 29-30, y DU.**




VB13d. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'r prif fath o gyrchfan y gwnaethoch chi aros ynddo yn ystod eich trip ym mis Ebrill?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a aeth ar drip ers mis Ebrill: Cymerwyr tripiau yn y DU. n = 510; Cymerwyr tripiau Unigryw i Gymru n = 48.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Y gallu i fynd ar drip a gynlluniwyd i'w gymryd yn wreiddiol

- Llwyddodd mwyafrif helaeth y rhai a gymerodd dripiau yn y DU a Chymru i ymweld â chyrchfan gwreiddiol eu trip bwriedig ym mis Ebrill.
- O'r lleiafrif bach na lwyddodd, pryderon ynghylch bod gormod o bobl yn y gyrchfan, pryderon na fyddai digon i'w wneud a llety cyfyngedig oedd y prif resymau dros beidio â gwneud hynny.
- Roedd lleiafrif bach hefyd yn poeni am y croeso y byddent yn ei gael ac nad oedd y lleoliadau yn COVID ddiogel.

**Ffigur 67. Cyfran a lwyddodd i fynd ar y trip domestig dros nos yr oeddent wedi'i fwriadu yn wreiddiol ym mis Ebrill, Canran, Tonnau 29-30, y DU.**




**Ffigur 68. Rhesymau dros beidio â chymryd y trip a drefnwyd yn wreiddiol, Canran, Tonnau 29-30, y DU.**




CVB13fii. Gan ystyried i ble aethoch chi mewn gwirionedd, ai dyma'r gyrchfan yr oeddech chi'n gobeithio mynd iddo'n wreiddiol, neu a wnaethoch chi ddewis rhywle arall yn y pen draw? Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a aeth ar drip ers mis Ebrill: cymerwyr tripiau yn y DU n = 510; Pob un na allent fynd ar y trip a gynlluniwyd yn wreiddiol n = 68.

# Mathau o lety a ddefnyddiwyd ar dripiau a gymerwyd ers mis Ebrill

- Ymhlith y rhai a gymerodd dripiau yn y DU a Chymru, ‘carafán/gwersylla’ a ‘hunanarlwyo masnachol’ oedd y ddau brif fath o lety ar gyfer tripiau a gymerwyd ers mis Ebrill.
- Roedd ‘cartref preifat’ hefyd yn fath o lety blaenllaw ar gyfer y rhai sy’n cymryd tripiau yn y DU - ond yn llai felly ar gyfer y rhai sy’n cymryd tripiau yng Nghymru - a yrrir gan y gyfran uchel o ymweliadau â ffrindiau neu berthnasau.

**Ffigur 69. Llety yr arhoswyd ynddo ar drip ym mis Ebrill, Canran net, Tonnau 29-30, y DU.**




VB13f. Ym mha fath/au o lety y gwnaethoch chi aros yn ystod eich trip yn y DU ym mis Ebrill?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a aeth ar drip ers mis Ebrill: Cymerwyr tripiau yn y DU. n = 510; Cymerwyr tripiau Unigryw i Gymru n = 48

# Lle yr ymwelodd cymerwyr tripiau yng Nghymru

- Mae'r rhai sydd wedi cymryd tripiau yng Nghymru ers mis Ebrill yn fwyaf tebygol o fod wedi aros yn Llandudno a Bae Colwyn ac yna Bae Aberteifi, Sir Benfro a Eryri.
- Mae Bae Abertawe a Chaerdydd hefyd yn cyrraedd y 5 uchaf.

**Ffigur 70. Ardaloedd yng Nghymru yr ymwelwyd â hwy ar drip ym mis Ebrill, Canran, Tonnau 29-30, y DU.**




VB13cii. Ble yn benodol yn yr ardaloedd hyn wnaethoch chi aros?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a aeth ar drip yng Ngymru ers mis Ebrill. Sylfaen n = 62.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Methodoleg



# Methodoleg

Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar arolwg ar-lein wythnosol a gynhaliwyd ymhlith sampl gynrychioliadol o boblogaeth y DU yn genedlaethol. Mae'r sampl graidd yn cynrychioli oedolion 16+ oed yn ôl rhyw, oedran, rhanbarth y llywodraeth a gradd gymdeithasol.

Yn y cyfnod cyntaf, caiff sampl graidd gynrychiadol yn genedlaethol o 1,500 ei recriwtio a'i chyfweld. Wedyn caiff y sampl hon ei 'chynyddu' yng Nghymru a'r Alban er mwyn sicrhau meintiau sylfaen digonol ar gyfer dadansoddi cenhedloedd ar wahân. Wedyn caiff y data eu pwysoli i wneud y sampl yn gynrychiadol o sampl y DU yn gyffredinol ac ym mhob gwlad. Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno'r canlyniadau a gymerwyd o Donnau 14-16 o draciwr wythnosol defnyddwyr COVID-19.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BVA BDRC